Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/Clerk: Heulwen Bulman

Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON
NOS WENER 14 GORFFENNAF 2017 AM 7.30 O'R GLOCH
YN Y NEUADD GOFFA

COFNODION CYFARFOD GORFFENNAF 2017

Cwblhawyd ffurflenni 'Derbyn Swydd' gan y cynghorwyr newydd cyn y cyfarfod i'w ddechrau.

1. **CROESO**
Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol gan estyn croeso cynnes iawn i'r 3 Cynghorwr newydd, Mrs Karine Davies, Mrs Manon Wyn James & Mr Gary Rees.

PRESENNOL: Cyng. David Bennett (Cadeirydd), Cyng Catherine Hughes, Karine Davies, Manon Wyn James, Gwilym Jenkins, Ann Jones, Arwel Jones, Alun Owen, June Owens, Gary Rees & Cyng Rhydian Wilson.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Neb

3. **MATERION PERSONOL**
Dim i'w gofnodi

4. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL**

5. **CADARNHAU COFNODION 6 MEHEFIN 2017**
Cynnig: Cyng Alun Owen
Eilio: Cyng Arwel Jones

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
6.1 Angen ychwanegu enw Cyng Alun Owen i gofnodion Mehefin 2017.
6.2 Cytunwyd yn unfrydol i ganiatáu Jeff Jenkins i barhau a'r gwaith angenrheidiol i gysylltu golau stryd i oleuo Henry Richard a'r neuadd goffa am bris o £300
6.3 Cyng Arwel Jones i wneud arolwg gweledol ar y Parc chwarae tan fis Medi wedyn trosglwyddo'r ffeil i Cyng Rhydian Wilson. Clerc wedi archebu sticeri gan Evans Coaches o logo'r Cyngor Tref.
6.4 Clerc i anfon llythyr i arwyddo amdano drwy'r post i Mr Adrian Davies i ddweud wrtho fod rhaid iddo ail-wneud cyfan o lawr y cylchfan gan gynnwys llenwi'r craciau eraill sydd oddi amgylch y parc, cyn iddo fynd ar ei wyliau neu bydd y Cyngor Tref yn mynd a'r mater ymhellach.
6.5 Dal oedi ar ochr y Comisiwn Elusennau i gymerid y Ganolfan Hamdden drosodd.
6.6 Sieciau yn gofyn am gymorth ariannol wedi'u dosbarthu i gyd.
6.7 Sesiwn hyfforddi wedi'u drefnu ar y cyd gan gynghorau cymuned eraill i drafod y côd ymddygiad a'r Pwyllgor Safonau. Cynhelir y sesiwn hyfforddi ar nos Lun 18 Medi 2017 am 7yh yn y Neuadd Goffa yn Nhregaron.
6.8 Clerc wedi anfon cais am gopi o'r cyfrinair a'r cyfarwyddiadau i ddiweddaru'r gwefan oddi wrth Technoleg Taliesin. Cyng Rhydian Wilson i gynorthwyo'r clerc wedi iddi dderbyn y cyfrinair.
6.9 Llwybrau Penddol a Rhianfa wedi derbyn sylw oddi wrth Mr Noel Jones.
6.10 Clawdd tu ôl i'r Hen Orsaf Dân wedi'u thorri nôl.
6.11 Clerc i siarad â Chyngor Sir Ceredigion am gyflwr y clawdd sydd angen ei dorri nol o Trefelin lan stryd Penrodyn. Hefyd am y perygl o'r llechi rhydd sydd ar dô Trefelin.

6.12 Soniwyd bod Mr Arwyn Morris o'r Cyngor Sir yn anhapus a gwasanaeth mae Tregaron yn derbyn drwy'r fan Llyfrgell symudol ar hyn o bryd.

6.13 Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan PCSO John Evans a soniwyd os oes yna gonserns gan unrhywun am bethau i ymwneud a Dregaron am iddynt ddod mewn cysylltiad â fe yn syth.

6.14 Derbyniwyd gair o ddiolch, trwy law Cyng June Owens, oddi wrth aelodau'r CFFI Tregaron am y rhodd hael a dderbyniwyd dros Rali 2017

7. **CYFRIFON**

7.1 Cyflog y Clerc £237.60
7.2 Cyflog Glanhawr £209.90
7.3 HMRC NIC/TAX £102.00
7.4 Silicon Sealer ar gyfer Twm Sion Cati £6.00
7.5 Gareth Jones Archwiliwr Mewnol £20.00
7.6 ROSPA £92.40

Cynnig: Cyng Gwilym Jenkins
Eilio: Cyng Rhydian Wilson

8. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN**

Gweithiwr strydlun yn gweithio oddi amgylch y dre yn raddol ond yn cadarnhau ei fod wedi bod lawr Llwybrau Penddol a Rhianfa, dechrau mynd heibio'r Ysgol uwchradd nawr a lawr Stâd Maesamlwg.

9. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

9.1	Rhis y Cais:	A170525
	Y Bwriad:	Amrywio amod 2 o ganiatâd cynllunio A150311 (arfaethedig cynllun goleuo allanol)
	Safle:	Ysgol Henry Richard
9.2	Rhif y Cais:	A170599
	Y Bwriad:	Newis defnydd ysgubor i fwthyn gwyliau
	Safle:	The Barn, Argoed Fach, Tregaron
9.3	Rhif y Cais:	A170632
	Y Bwriad:	Cadw gwaith – generadur ychwanegol i mewn i'r planhigyn presennol i ddarparu trydan wrth gefn ychwanegol
	Safle:	Green Frog Power, B4343, Dewi Road, Tregaron

Cynnig: Cyng Alun Owen
Eilio: Cyng Arwel Jones

10. **CANIATAD CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

11. **CYNGOR SIR CEREDIGION**

11.1 Cyfarfod wedi'u drefnu ar gyfer cynghorwyr chymuned/thref ar nos Lun 18 Medi 2017 am 7.00 yh yn Neuadd Goffa, Tregaron i drafod y Côd ymddygiad a'r gwaith wnaed gan y Pwyllgor Safonau.

12. **UN LLAIS CYMRU**

Dim i'w gofnodi.

13. **GOHEBIAETH**

13.1 E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Jaspreet Kaur, 'Macmillan Cancer Informtaion and Support' yn gofyn caniatâd ddod a bws i Dregaron ar ddydd Gwener 13 Hydref 2017 i godi ymwybyddiaeth a chymorth i ymwneud a Cancr – dim gwrthwynebiad. Gofyn iddynt gysylltu a Chyngor Sir Ceredigion am ganiatâd cadw lle parcio iddynt.

13.2 Cylchredwyd adroddiad arolwg y parc chwarae drwy e-bost cyn y cyfarfod a'i drafodwyd.

14. **UNRHYW FATER ARALL**

14.1 Angen torri'r clawdd ar y dde lawr am y ffordd cyn dod i Fferm Argoed.

14.2 Cloddiau ar hyd 'Gypsy Lane' angen ei torri nol.

14.3 Soniwyd am cyflwr arwyddion glas sy'n dod i fewn i Dregaron, Cyng Catherine Hughes i ofyn allan am brisiau o'r Cyngor Sir Ceredigion am ei hadnewyddu.

14.4 Angen torri'r coed tu cefn i'r hen Gapel Wesley, Cyng Catherine Hughes i ymchwilio fewn i'r perchnogion.

14.5 Derbyniwyd cais am gopïau o gofnodion dros y dwy flynedd diwethaf oddi wrth Cyng Karine Davies – clerc i drefnu.

14.6 Cwyn wedi'u dderbyn am arwyddion uniaith saesneg caffi Riverside – Clerc i ysgrifennu iddynt i gwyno.

14.7 Cytunwyd i gynnal noson agored i drafod y ganolfan hamdden, cyflwyno sieciau a rhoi diolch i'r cyn-gynghorwyr am am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

14.8 Clerc i gysylltu a Noel Jones i cadw tyfiant y coed ym Maesyrawel lawr gan fod y Cyngor Sir wedi'u torri lawr cryn dipyn yn barod.

14.9 Cyng Alun Owen i rhoi'r cyfle olaf i Mr Jason Hockenhull i gario allan y gwaith o ddodi mainc yn y wal sy'n mynd fynny Blaencaron.

14.10 Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth PCSO John Evans am y digwyddiadau yn Nghregaron dros y misoedd diwethaf.

TERFYNWYD Y PWYLLGOR

CADEIRYDD